01.10.2020

Tomos Hughes
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Wythnos enfawr o chwaraeon i sêr Cymru

Yr Eidal, Bwlgaria, Iwerddon, Yr Alban a Chymru – bydd y ddraig goch i'w weld ar draws Ewrop yr wythnos yma wrth i'n sêr chwaraeon gynrychioli ein gwlad mewn amryw o gampau.

Gyda gemau pêl-droed rhyngwladol Cynghrair Cenhedloedd UEFA, y ras feics Giro d'Italia, y rali ddiweddaraf ym Mhencampwriaeth Rali'r Byd, gemau rygbi Guinness PRO14, yn ogystal â gemau pwysig yng nghynghrair bêl-droed y JD Cymru Premier - bydd digonedd o chwaraeon cyffrous i wylwyr S4C fwynhau drwy'r wythnos.

**Sgorio Rhyngwladol: Gweriniaeth Iwerddon v Cymru a Bwlgaria v Cymru**
Gyda chwe phwynt allan o chwech o'r ddwy gêm gyntaf, cafodd Cymru'r dechreuad perffaith i'w hymgyrch Cynghrair Cenhedloedd UEFA fis diwethaf. Ond gyda gemau oddi cartref yn erbyn Gweriniaeth Iwerddon ddydd Sul, i'w weld am 1.30pm ar S4C, a Bwlgaria nos Fercher, i'w weld am 7.25pm, bydd rhaid i dîm Ryan Giggs fod ar ei orau i ail-adrodd yr un gamp y tro hwn. Gwyliwch y ddwy gêm yn fyw yng nghwmni criw Sgorio.

**Seiclo: Giro d'Italia**
Gyda phob cymal i'w weld yn fyw bob dydd am 1.00pm a rhaglenni uchafbwyntiau gyda'r nos, ymunwch â chriw profiadol Seiclo ar gyfer y ras hanesyddol sy'n ymlwybro drwy gefn gwlad godidog yr Eidal.

**Ralio 2020: Rali Italia Sardegna**
Byddwn yn yr Eidal eto ar fore Sul am 11.00 ar gyfer darllediad byw o gymal olaf Rali Italia, sy'n cael ei gynnal ar ynys Sardinia. Ar ddiwedd y cymal cyffrous yma, o'r enw Sassari Argentiera, fe fydd pencampwr Rali'r Eidal eleni yn cael ei goroni. Tybed os welwn ni fuddugoliaeth arall i'r Cymro o Ddolgellau, Elfyn Evans?

**Clwb Rygbi: Gleision Caerdydd v Connacht**
Gyda rhanbarthau Cymru i gyd yn gobeithio am ddechreuad cryf i'r tymor newydd Guinness PRO14, bydd camerâu Clwb Rygbi ym Mharc yr Arfau ar nos Sadwrn am 7.30pm ar gyfer darllediad byw o'r gêm rhwng Gleision Caerdydd a Connacht. Bydd cyfle hefyd i weld y gemau rhwng Glasgow a Scarlets (Nos Sul, 10.00pm) a Gweilch v Ulster (Nos Lun, 10.00pm) yn eu cyfanrwydd gyda Clwb Rygbi.

**Sgorio: Y Bala v Aberystwyth a Y Seintiau Newydd v Cei Connah**
Mewn wythnos dyngedfennol yn nhymor y JD Cymru Premier, bydd y gêm rhwng y Bala ac Aberystwyth i'w weld yn fyw ar S4C am 5.15pm ar nos Sadwrn. Yna, ar nos Fawrth am 7.45pm, bydd camerâu Sgorio yn Neuadd y Parc ar gyfer y gêm enfawr rhwng Y Seintiau Newydd a'r

pencampwyr, Cei Connah – gwyliwch y cyfan yn fyw ar S4C Clic, neu dudalennau Facebook a YouTube Sgorio.

01.10.2020

Tomos Hughes
Cyswllt Contact
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Huge week for Welsh sports stars

Italy, Bulgaria, Ireland, Scotland and Wales – the red dragon will be visible across Europe this week as Welsh sports stars take part in a host of international sporting events.

With UEFA Nations League matches, the Giro d'Italia bike race, the latest rally from the World Rally Championship, Guinness PRO14 rugby matches and important fixtures in the JD Cymru Premier, there is plenty of sporting excitement on offer throughout the week on S4C.

**Sgorio Rhyngwladol: Republic of Ireland v Wales and Bulgaria v Wales**
After securing maximum points from their first two matches, Wales got off to the perfect start in their UEFA Nations League campaign last month. But with away trips to face the Republic of Ireland, to be shown at 1.30pm on Sunday on S4C, and Bulgaria, at 7.25pm on Wednesday evening, Ryan Giggs' side will have to be at their best to repeat the same feat this time around. Watch live coverage of both matches with Sgorio.

**Seiclo: Giro d'Italia**
With live coverage of each stage at 1.00pm every day, as well as highlights every evening, join the experienced Seiclo team for coverage of this historic race, which shows off the best of Italy's stunning countryside.

**Ralio 2020: Rali Italia Sardegna**
We will be in Italy again at 11.00am on Sunday morning for live coverage of the final stage of Rally Italia, which is being held on the island of Sardinia. This power stage, named Sassari Argentiera, will crown the winner of this year's Rally Italy. Will there be another win for world title-chasing Welshman, Elfyn Evans?

**Clwb Rygbi: Cardiff Blues v Connacht**
With the Welsh regions all hoping for a strong start to the Guinness PRO14 season, the Clwb Rygbi cameras will be at the Arms Park on Saturday night at 7.30pm for live coverage of Cardiff Blues v Connacht. There will also be a chance to watch the games between Glasgow Warriors and Scarlets (Sunday, 10.00pm) and Ospreys v Ulster (Monday, 10.00pm) in their entirety with Clwb Rygbi.

**Sgorio: Bala Town v Aberystwyth Town and The New Saints v Connah's Quay**
As we head into an important week in the JD Cymru Premier, Saturday night's match between Bala Town and Aberystwyth Town will be shown live on S4C from 5.15pm. Then, on Tuesday night at 7.45pm, the Sgorio cameras will be at Park Hall to bring live coverage of the match between The New Saints and champions Connah's Quay, which will be shown on S4C Clic and on the Sgorio Facebook and YouTube pages.